Wynebau coed

Trosolwg

Mae'r gweithgaredd hwn yn gwahodd y plant i wneud coed yn bethau byw drwy roi wynebau iddynt sydd wedi'u gwneud o fwd neu glai. Mae'n ffordd hwyliog a chreadigol o archwilio teimladau, adrodd straeon ac adeiladu geirfa emosiynol newydd wrth gysylltu â byd natur.



Gweithgareddau

Mae'r plant yn cymysgu mwd a dŵr i greu cymysgedd sydd â gweadmeddal, tebyg i glai, neu maent yn defnyddio clai parod. Maent yn ei wasgu'n ofalus ar foncyffion coed ac yn ychwanegu trysorau naturiol megis brigau, dail, cerrig a rhisgl i greu wynebau. Mae oedolion yn ymuno ac yn sgwrsio am fynegiannau ac emosiynau, gan helpu'r plant i enwi teimladau a dychmygu beth y gallai eu coeden fod yn ei feddwl, yn ei deimlo, neu'n ei ddweud.

Offer

- Mwd a dŵr neu glai
- Powlenni neu gynwysyddion bach
- Darnau rhydd naturiol (brigau, dail, cerrig, rhisgl)
- Coed neu foncyffion mawr

Cwestiynau allweddol:

Mae'r goeden yma'n edrych yn bryderus. Beth allai ei helpu i deimlo'n well?
Sut rydym yn gwybod bod y goeden yn llawn cyffro?
Wyt ti erioed wedi teimlo fel y goeden yma?

Deilliannau dysgu

- Archwilio a mynegi amrywiaeth o deimladau mewn modd chwaraegar a chreadigol.
- Datblygu geiriau newydd i ddisgrifio emosiynau.
- Ymarfer sylwi ar fynegiannau'r wyneb a siarad amdanynt.
- Magu hyder i rannu syniadau a theimladau â phobl eraill.
- Datblygu gofal a pharch at ddeunyddiau naturiol a'r amgylchedd.

Geirfa estynedig

hapus · trist · dig · cyffrous · digynnwrf · blinedig · pryderus · ofnus · rhwystredig · swil · balch · unig · syn · dryslyd · chwilfrydig · nerfus · caredig · tawel